



**CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD MISOL 27.04.2017; NEUADD YR EGLWYS SAN PEDR,
LLANBEDR PONT STEFFAN AM 7.30PM**

*Gwahoddwyd aelodau i gymryd rhan mewn gweddi cyn dechrau'r cyfarfod.
Boed i'r Maer y Cyngh. David Smith offrymu gweddi.*

1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL

Estynnodd y Maer, y Cyngh. David Smith groeso cynnes i bawb.

2. YN BRESENNOL

Y Maer Y Cyngh. David Smith;
Y Dirprwy-Faer Y Cyngh. Hag Harris;
Y Cynghorydd Andrew Carter;
Y Gynghorwraig Elsie Dafis;
Y Cynghorydd John Davies;
Y Gynghorwraig Elin Jones;
Y Gynghorwraig Ann Morgan;
Y Cynghorydd Rob Phillips;
Y Cynghorydd Kistiah Ramaya;
Y Cynghorydd Christopher Thomas; &
Y Cynghorydd Selwyn Walters.
Y Gynghorwraig Dorothy Williams.
Arolygydd yr Heddlu Matthew Howells.
Mr Mike Lewis – Gohebydd y Wasg y Cambrian News.

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Rhys Bebb-Jones a'r Cynghorydd Derek Wilson.

3. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Cyflwynodd Arolygydd yr Heddlu Y Dref, Matthew Howells ei hun, i aelodau'r Cynghor Tref.

Trafodwyd y materion canlynol:

3.1 Gall y cyhoedd gysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol drwy ffonio 101; disgwylir ymateb o fewn 24 awr.

Teimlwyd ei bod yn well gan rai pobl i ddelio'n bersonol gan yr Heddlu yn hytrach na cysylltu dros y ffôn. Gellir cysylltu â Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn dull personol.

3.2 Disgwylir cwtogi yn y nifer o oriau y mae'r Gorsaf Heddlu Llambod ar agor.

Bydd Gorsaf Heddlu y Dref a Gorsaf Heddlu Aberaeron yn ddi-griw dros nos yn ystod yr wythnos. Mae'r ddwy dref yn derbyn sylw ar hyn o bryd gan batrolau nos Aberystwyth ac Aberteifi. Bydd gorsafoedd canol-adran fel y rhain heb fod yn cael eu staffio o 01:00-9:00am yn ystod yr wythnos ac yn dod o dan adain Aberteifi ac Aberystwyth.

Bydd y gorsafoedd yn cael eu staffio tan 03:00am ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn; pan fo digwyddiad yn yr ardal gyda'r potensial am anhrefn, bydd swyddogion yn cael eu recriwtio i weithio sifft nos. Dywedodd yr Arolygydd. Howells bod y newid yn ganlyniad i batrymau sifft gwahanol.

3.3 Y mae nifer o ffenestri siopau'r dref wedi eu chwalu.

3.4 Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CTCC):

Mae cynlluniau ar waith gan Gomisiynydd yr Heddlu i ail-gyflwyno'r darpariaeth o GTCC. Dywedodd y Cyngh. Ramaya bod Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi bod yn allweddol wrth osod mewn lle camerâu Llambled yn y gorffennol ac wedi darparu swm ariannol sylweddol. **PENDERFYNWYD** cysylltu â'r Comisiynydd yr Heddlu i geisio deialog gyda'r bwriad o ail-gyflwyno'r camerâu teledu cylch cyfyng yn Llanbedr Pont Steffan ac i sôn y byddai'r Cyngor Tref yn barod i gynnig cymorth ariannol.

3.5 Parhau y mae plant ysgol i wthio ei gilydd o'r palmant i'r stryd o flaen traffig. Bydd yr Heddlu yn siarad â disgyblion yr Ysgol.

3.6 Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem o fewn eiddo o dan ofal *Tai Cymru a'r Gorllewin*, ar Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan. (Stoc Tai Cantref)

3.7 Heddlu Dyfed-Powys: Llythyr gan Stephen Davies, Prif Arolygydd – y mae newydd gychwyn yn ei swydd fel Prif Arolygydd Gweithredol Ceredigion. O fewn ei rôl y mae ei gyfrifoldeb yn cynnwys cydlynu gwaith Cwnstabiliaid, Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH), Rhingylliaid, Arolygwyr a Staff Heddlu ledled y sir er mwyn cyflwyno amrediad eang o wasanaethau plismona. Os hoffai'r Cyngor Tref drafod unrhyw faterion plismona gweithredol gellir cysylltu ag e i drefnu amser i gwrdd sy'n gyfleus ar gyfer y ddwy ochr. Ei fanylion cyswllt yw stephen.davies@dyfed-powys.pnn.police.uk neu ei Gynorthwydd Personol enfys teakle@dyfed-powys.pnn.police.uk. Ffôn: 01267 222020 est. 50317.

4. DATGELU BUDDIANT PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

4.1 Y Cyngh. Rob Phillips – Cais am gymorth ariannol ar gyfer yr Eisteddfod Gŵyl y Banc: Cofnod Cyf 9.3.2

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 30AIN O FAWRTH 2017

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ar wahân i'r canlynol:

Cofnod Cyf 3.1 PENDERFYNWYD Ilongyfarch Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones ar dderbyn Gwobr #WeCare (*Rydym yn gofalu*), sy'n gydnabyddiaeth o'i ymrwymiad i'r rai hynny y mae'n eu gwasanaethu. *Roedd SCC yr Heddlu Jones wedi mynd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylwyd ohono drwy helpu merch-ysgol yn ei harddegau, a oedd yn cael ei bwlio.*

Ni dderbyniodd SCC Yr Heddlu Jones y wobwr, ond roedd yn un o'r pedwar unigolyn, a oedd wedi eu cynnwys o fewn y rhestr fer ac wedi derbyn Tystysgrif i gydnabod ei ymdrech.

Cofnod Cyf 6.4

Leoliadau ar gyfer Diffibrilwyr o fewn y Dref, Roedd "adeilad" San Ioan wedi ei gynnwys o fewn y rhestr. Nid oes adeilad ar gael ar gyfer mudaid

Sant Ioan ond yn hytrach cyfarfuant yng Nghlwb Rygbi Llamed; lleolir diffibrilwyr o fewn y Clwb Rygbi. Penderfynwyd hybysu Mr Richard Lee, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o'r newid.

Fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

6.1 **Cyngor Sir Ceredigion: Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad.**

Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan. Ethol 15 Cynghorydd Tref.

Hysbyswyd gan Miss Bronwen Morgan, Swyddog Canlyniadau'r etholiad bod y canlynol wedi'u hethol yn briodol heb wrthwynebiad fel Cynghorwyr Tref dros y dref o Lamed:

Hag Harris- Llafur Cymru; Elin Jones-Plaid Cymru; Rhys Bebb Jones-Plaid Cymru; Ann Bowen Morgan-Plaid Cymru; Dinah Mulholland-Llafur Cymru; Robert Phillips-Plaid Cymru; Kistiah Ramaya; David Smith-Annibynnol; Christopher Thomas; Selwyn Walters.

Talodd y Maer, y Cynghorydd David Smith deyrnged i'r Cynghorwyr ar ymddeol - Andrew Carter (1995-2017); Elsie Dafis (2007-2017); John Davies (1987-2017); Dorothy Williams (1982-2017) a Derek Wilson (2004-2017) a diolchodd iddynt am eu gwaith unigol ac ar y cyd.

Cynigiwyd peidio â cheisio llenwi'r 5 sedd wag yn y dyfodol agos, ond i gynnal cyfarfod ag aelodau'r cyhoedd yn ddiweddarach, i egluro rôl Cynghorydd Tref, mewn ymgais i annog mwy o bobl i sefyll am y swydd.

6.2 **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Seremoni Urddo'r Maer 2017:**

Seremoni Urddo'r Maer 2017: Nos Wener 26ain o Fai 2017 am 6.30pm yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Tref: Dydd Mercher 17eg o Fai 2017 pan etholir y Maer a'r Dirprwy-Faer a phob aelod i arwyddo'r *Datganiad Derbyn Swydd* ac i gytuno i ymrwymo i'r Cod Ymddygiad. Bydd Croeso a Lluniaeth Ysgafn yn dilyn Seremoni Urddo'r Maer yn yr Hen Lyfrgell, PCYDDS.

Dosberthir y gwahoddiadau'n ystod y dyfodol agos.

Cynhelir Gwasanaeth Sifig y Maer ar fore Dydd Sul 25ain o Fehefin 2017 am 10.30am yn Eglwys San Pedr o dan arweinaid y Caplan y Maer y Canon Andy Herrick. Bydd y Gyngh. Ann Morgan yn canu'r Anthem Genedlaethol ar y piano. **PENDERFYNWYD** cyflwyno tarian i'r Cynghorwyr ar ymddeol.

6.3 **Ardal Chwarae Maes-y-Felin:**

Trosoglwyddo gofal am y parc o bosibl o *Dai Ceredigion* i'r Cyngor Tref: Y mae'n fwriad gan Mr Edwards i glustnodi sylw i'r mater yn ystod y dyfodol agos ac i hysbysu'r Cyngor Tref ar ôl hynny.

6.4 **Arwyddion (Man geni Rygbi a chartref y Brifysgol hynaf yng Nghymru):**

Platiau Atodol: Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn bwrw ymlaen â'r trefniant o ddarparu arwydd-blatiau'n ystod yr wythnosau nesaf.

6.5 **Rhestr Anrhydedd:**

wedi ei symud o'r Swyddfa Ddidoli Post Llanbedr Pont Steffan a'i storio ar hyn o bryd yng nghartref y Maer y Cyngh. David Smith (mewn adeilad allanol). Gellir cysylltu â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ofyn tybed a ellir arddangos y byrddau o fewn y Brifysgol. Gellid eu tocio i gymryd llai o le. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cyngh. Derek Wilson a allai ymgymryd â'r gwaith.

Cysylltwyd â Mr Robert Blayney i ofyn a allai ddiweddarau'r Rhestr Anrhydedd. *Disgwylir ateb.* (Diweddarwyd ddiwethaf ym 2007).

6.6 Hysbysfwrdd Llyfrgell y dref: (glanhau a gwella ei gyflwr cyffredinol)

Dywedodd y Cyngh. Chris Thomas fod ychydig o waith adferol wedi ei wneud – y gwaith yn mynd yn ei flaen.

6.7 Arddangosfeydd Blodau Dyfodol y Dref Dros Fisoedd yr Haf:

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymwneud â'r gwaith yn ystod Haf 2017 dan gyfarwyddyd Mr Jon Hadlow am ffi o oddeutu £6,000. Disgwylir gwasanaeth Mr Robert Jones i ddyfrhau'r arddangosfeydd am oddeutu £4,000. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion mewn cyfarfod cynt i ofyn am Dimpled Asesu Risg, y gallai'r Cyngor Tref gwneud defnydd ohono wrth geisio datganiadau o ddiddordeb, yn ystod y dyfodol. *Disgwylir ateb.* Y gwaith i gynnwys y 4 plannwyr ar Fynedfeydd y Dref. Ar hyn o bryd y mae'r Cyngh. Chris Thomas yn neilltuo sylw i'r Plannwr sydd wedi ei leoli ar fynedfa Tregaron i'r dref a gwnaeth apêl am gymorth i ymwneud â'r gwaith (dydd Sul 30ain Ebrill am 10 o'r gloch).

6.8 Cadwyn y Maer Yn dilyn cyngor gan Yswiriant *Zurich* ynghylch Cadwyn y Maer **PENDERFYNWYD** y byddai'r Maer yn gwneud trefniadau i ailbriso'r gadwyn a'r regalia dinesig. *Trefniadau'n mynd yn eu blaen.*

Prynu Cist: Y Maer yn ymwneud ag ymholiadau.

Bu i dri o'r Cynghorwyr sy'n ymddeol drosglwyddo eu gynau i feddiant y Clerc yn ystod y cyfarfod hwn sef y Cyngh. Andrew Carter; Y Gyngh. Elsie Dafis a'r Cyngh. John Davies.

6.9 12 Cadair Lledr: Neuadd Fictoria

(ymddangosant ar Gofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor Tref).

Cysylltwyd â Mr Aled Williams, Rheolwr Ystadau, PCYDDS; caniateir y Cyngor Tref i storio neu gwneud defnydd o'r cadeiriau o fewn y Brifysgol. **PENDERFYNWYD** sefydlu amser cyfleus i'r ddwy ochr i adleoli'r cadeiriau o Neuadd Fictoria i'r Coleg. *Disgwylir ateb.*

6.10 Disgo Ysgol Bro Pedr: cynhaliwyd ar ddydd Iau 6ed Ebrill 2017 yn yr Ysgol am 1.00pm. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Llinos a Heulyn, Prifathrawon Cynorthwyol, Ysgol Bro Pedr, yn diolch i'r Cyngor Tref am drefnu disgo a byrbrydau, unwaith eto eleni, ar gyfer yr holl ddisgyblion y campws iau Ysgol Bro Pedr.

6.11 Ardal ar gyfer Plannu Planhigion - cyfagos i'r Stryd y Farchnad, Maes Parcio (Sainsbury), Llanbedr Pont Steffan. Cytunodd Cyngor Sir Ceredigion nad oedd gwelyau pridd yn briodol ar gyfer y safle hwn. Gwneir trefniadau i balmantio dros yr ardal yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

6.12 Grant Rhwydwaith Ardal Chwarae Ceredigion:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau grant oedd diwedd mis Mawrth 2017. Nid oedd y Cyngor Tref wedi medru cwrdd â'r terfyn amser.

7. GOHEBIAETH

7.1 Gohebiaeth gan Mr David Hughes yn datgan ei fod, yn ystod y chwe mis diwethaf, wedi sylwi nad oedd nifer o balmentydd a gwteri

strydoedd Llanbedr Pont Steffan wedi eu glanhau. Roedd ffordd A475 at gyfeiriad Castell Newydd Emlyn yn ei dŷb ef, mewn cyflwr gwael; "Bydd gweddillion a malurion hydref diwethaf ar ôl glaw trwm yn troi'n llithrig a blocio draeniau. Heb unrhyw amheuaeth, bydd hyn yn golygu gwaraint ychwanegol i'r Cyngor i glirio draeniau pan fydd argyfwng yn codi. Gyda'r tymor gwyliau yn agosáu, y mae'r sefyllfa'n cyfleu argraff negyddol iawn o Lanbedr Pont Steffan fel tref i ymweld â hi." Dywedodd y byddai'n ddiolchgar pe gellir ymwneud ag un glanhad manwl cyn gynted ag y bo modd. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Adran Briffyrdd CSC i lanhau yr ardal ac i ysgubo'r gwteri. Hefyd i fflysio draeniau o fewn y dref gan fod draeniau'n parhau wedi eu blocio ar Stryd y Coleg.

7.2 Llywodraeth Cymru:

Y Cynghorydd Da: Canllaw ar gyfer Cyngorwyr Cymuned a Thref. Copi Caled: i'w gadw fel Copi Llyfrgell. Mae copïau electronig ar gael o'r gwefannau canlynol: www.wales.gov.uk Llywodraeth Cymru; Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (www.slcc.co.uk) ac Un Llais Cymru (www.onevoicewales.org.uk)

7.3 Un Llais Cymru: Pwyllgor Ardal Ceredigion

Dydd Mercher 26ain Ebrill, 2017 am 7pm yn Ystafell Teifi, Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron.

Nid oedd y Cyngor Tref wedi ei gynrychioli yn ystod y cyfarfod hwn.

7.4 Tai Cymru a'r Gorllewin: Mae Bwrdd Tai Cymru a'r Gorllewin yn cynnwys 12 o bobl etholedig, 8 ohonynt yn gyfranddalwyr a etholir yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (a gynhelir ar 22ain Mehefin eleni). Ffurflen yn amgaaedig, i'w gwblhau, petai aelod o'r Cyngor Tref yn dymuno sefyll etholiad. **PENDERFYNWYD** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

7.5 Un Llais Cymru: Hyfforddiant ar gyfer Y Cynghorydd Newydd ei Sefydlu:

Hysbysiad o ddyddiadau a lleoliadau i gynnwys o Morlan, Aberystwyth ddydd Mercher 24ain Mai 2017. 6.30-9.00pm.

7.6 Llythyr gan Dafydd Howells Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys yng nghyswllt y Gronfa Gymunedol y Comisiynydd sy'n cynnig grantiau hyd at £5,000 i elusennau, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol er mwyn datblygu prosiectau sy'n cael effaith gadarnhaol o fewn eu hardaloedd. Mae'r arian ar gael i'r sector cyhoeddus, y sector breifat, sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol ac anogir ymagwedd gydlynol. Mae'r trothwy hyd at £5,000 a'r rhaglen ar agor o 13 Ebrill, 2017 a'r dyddiad cau yr 2ail o Fehefin, 2017.

7.7 E-bost gan Emma Davies, Ystâd Maesyderi, parthed bin a leolwyd o fewn Ardal Chwarae Maes-y-Deri. (Ynghanol yr Ystad), a oedd yn aml yn llawn i'r ymylon ac heb fod yn cael ei wacau'n rheolaidd, ac o ganlyniad gwasgarwyd llawer o sbwriel ar y safle ac yn berygl amgylchedd. Roedd trigolion Ystâd Maesyderi yn talu tâl gwasanaeth i Dai Ceredigion am gynnal a chadw'r ardal-chwarae. Roedd yn hysbys bod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwagio'r bin yn y gorffennol. Roedd diffyg cyfathrebu rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Thai Ceredigion yn golygu nad oedd yr un ohonynt yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Cysylltwyd â'r Cymdeithas Tai, Tai Ceredigion eisoes sydd wedi cytuno

i waredu â'r bin presennol a'i gyfnewid am ddau fin newydd, i'w gwacau bob tair wythnos gyda'r bwriad o gynyddu'r amllder yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd cyfrifoldeb dyfodol am wacau'r biniau yn nwylo Tai Ceredigion.

7.8 Gofynnodd y Gyng. Ann Morgan pwy oedd yn gyfrifol am wasanaethu'r bin ym Maesyfelin. Roedd aelodau o'r farn bod sbwriel yn sialens mewn nifer o ardaloedd i gynnwys tu allan i allfeydd *Cymerwch Fwyd Allan* o fewn y dref, a gellid gofyn i berchnogion ee Gregg's ac Oscar's a allent ddarparu bin sbwriel y tu allan i'w hadeiladau.

7.9 Glanhau Strydoedd Llanbedr Pont Steffan: Ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion i'r llythyr oddi wrth Mr J D Owen; Mynegwyd siom i farn Mr Owen mewn perthynas â chyflwr y strydoedd y dref. Ysgrifennodd Mr Paul Arnold,
"Mae'r Awdurdod yn derbyn swm cymharol fach o sylwadau negyddol ynglŷn â glendid y Sir. Gall hyn fod yn adlewyrchiad o'r ffaith fod y mwyafrif o bobl yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r amgylchedd leol ac o'r farn ei bod yn gymharol lân. Gall hefyd fod yn adlewyrchiad bod y cyhoedd yn gwerthfawrogi mai cyfrifoldeb mewn rhan sydd gan yr awdurdod lleol am lendid y sir, barn a rennir a fynegwyd gan *Cadwch Gymru'n Daclus*.

Mae'r testun o sbwriel stryd yn fater emosiynol iawn. Mae difwyno ein mannau agored a diffyg parch at yr amgylchedd yng Ngheredigion yn fater o gythrudd a rhwystredigaeth. Gollwng sbwriel ar ein strydoedd, tipio anghyfreithlon a bagiau sbwriel yn cael eu rhoi allan i'w casglu ar y diwrnod anghywir- y maent i gyd yn enghreifftiau o ffactorau sy'n arwain at ddiraddio amwynderau yr awyr agored. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud ei orau, gyda'r adnoddau a'r gyllideb sydd ar gael, i gadw strydoedd y sir yn lân, ond mae'n anochel a gallwn gydnabod na fyddwn yn gallu cwrdd â disgwyliadau oll. Yn rhy aml o lawer, bydd bai yn cael ei gyfeirio'n annheg tuag at y glanhawyr stryd sy'n gwneud eu gorau glas i glirio'r llanast a grëwyd gan drigolion leiafrif ac ymwelwyr.

Mae'r arbedion cyllidebol sy'n ofynnol ar yr Awdurdod yn hysbys. Bydd y rhain yn anochel yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys Glanhau Strydoedd, ac rydym eisoes yn ystyried newidiadau sylweddol. Gyda tharged arbedion o 30% wedi ei osod ar y gyllideb Glanhau Strydoedd, mae'n anochel y bydd rhaid ailedrych ac adlinio lefel y gwasanaeth. Bydd rhaid datblygu ac ehangu y ddull yr ydym eisoes yn cymryd, o dargedu adnoddau lle mae'r angen mwyaf. Mae gan y Tîm Glanhau Strydoedd ardal enfawr i lanhau ac ni all fod ym mhob man ar bob adeg.

Gall Cynghorau Tref a Chymuned chwarae rôl bwysig wrth gadw ein mannau cyhoeddus yn lân a thaclus. Yn wir, mae nifer eisoes yn cymryd eu camau eu hun i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol megis taflu sbwriel a baw cŵn, yn unol ag ethos *Caru Ceredigion*. Mae rhain yn amrywio o geisio dylanwadu yn gadarnhaol ar eu cymunedau lleol i drefnu digwyddiadau codi sbwriel gwirfoddol a thalu am wasanaethau glanhau strydoedd yn ychwanegol i'r rhai a ddarperir gan

yr Awdurdod hwn. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn falch o gynnig cymorth a chefnogaeth i gynghorau rhagweithiol hyn, er enghraifft drwy ddarparu offer, hyfforddiant a chyngor. Mae mwy o fanylion am Caru Ceredigion ar gael yn ddwyieithog ar wefan Cyngor Sir Ceredigion yn: <https://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/caruceredigion/Pages/default.aspx>

Mae canfyddiadau pobl ynghylch glendid strydoedd yn amrywio'n fawr a'r hyn a allai ymddangos yn dderbyniol i rai, gallai fod yn warthus i bobl eraill. Mae'r System Amgylchedd Leol Archwilio Rheolaeth, a ddefnyddir gan Cadwch Gymru'n Daclus, yn darparu dull systematig o fesur glendid strydoedd. Yn ogystal ag archwilio sbwriel, y mae'r arolwg yn cofnodi tipio anghyfreithlon, graffiti, baw cŵn, fandaliaeth, chwyn a detritws, i gael darlun cyffredinol o ansawdd yr amgylcheddau lleol. Cynhelir arolygon bob blwyddyn er mwyn darparu cipluniau o lendid strydoedd ledled Cymru. Mae'n galonogol gweld bod Ceredigion unwaith eto wedi sgorio Mynegai Glanweithdra uchel, gan ddangos ei fod yn un o'r siroedd lanaf yng Nghymru. Canfu'r arolygon glendid bod 95.7% o strydoedd Ceredigion, ar wahân i eitemau di-bwys, yn rhydd o sbwriel neu wastraff. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod y mwyafrif llethol o drigolion ac ymwelwyr yn parchu amgylchedd gwerthfawr Ceredigion. Gwybodaeth am yr adroddiad Cadwch Gymru'n Daclus LEAMS, Pa mor lân yw ein Strydoedd ar gael:

<https://www.keepwalestidy.cymru/news/street-glanweithdra-adroddiad-sioeau-addawol-arwyddion>

Rwy'n gobeithio y bydd fy sylwadau uchod yn esbonio safbwynt Cyngor Sir Ceredigion. Os ydych yn credu bod gan eich cyngor gyfraniad cadarnhaol i'w wneud, er mwyn gwella glendid strydoedd Llanbedr Pont Steffan i'r lefel y gwasanaeth yr ydych yn ei ddymuno, yn ogystal â chynnal proffil cadarnhaol ar gyfer y dref, byddem yn falch o gynnig cymorth a chefnogaeth i'r perwyl hwn. "**PENDERFYNWYD** anfon yr ymateb at sylw Mr Owen.

- 7.10 Un Llais Cymru:** Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017: Gwahoddir aelod gynghorau i gyflwyno uchafswm o ddau gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Ddydd Sadwrn 30ain o Fedi 2017, y mae'n rhaid iddynt gyrraedd swyddfa Un Llais Cymru erbyn canolddydd Gwener 30ain Mehefin 2017. **PENDERFYNWYD** gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.
- 7.11 Jacob Dafydd Ellis Newyddion 9 BBC Cymru** yn gofyn am wybodaeth parthed gefeillio'r dref â St. Germain Sur Moine. Y mae'r Cyngh. Kistiah Ramaya, Cadeirydd y Pwyllgor Gefeillio wedi ymateb ar ran y Cyngor Tref.
- 7.12 Tempeld Polisi Cyfryngau Cymdeithasol:** Un Llais Cymru: i drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.
- 7.13 Gohebiaeth eraill: Er gwybodaeth yn unig.**

8. MATERION CYNLLUNIO

- 8.1 Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion:** Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac Agenda'r cyfarfod nesaf.
- 8.2 Cyngor Sir Ceredigion:** Cais Cynllunio A170148 (Adeilad Rhestredig)

Lleoliad: 1 Tŷ Buckingham, Stryd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.
PENDERFYNWYD sôn bod y Cyngor Tref yn mynegi consyrn parthed yr or-datblygu wrth gefn; materion yn ymwneud â'r fynedfa a'r golled o amwynder ar gyfer eiddo cyfagos.

8.3 Cyngor Sir Ceredigion: Cais Cynllunio A170272: Cwrt Dulas, Stryd y Felin, Llanbedr PS: Sylwadau'r Cyngor Tref: Dim Gwrthwynebiad.

9. CYLLID

9.1 TALIADAU

9.1.1 Cyflog y Clerc Mawrth 2017 £760.79 (net); Cyllid a Thollau EM & YG £90.92.

9.1.2 Llogi Neuadd Eglwys San Pedr ar gyfer y Cyfarfod Misol 30/03/2017 £23.75.

9.1.3 Cyngor Sir Ceredigion: Cost Dyfrhau Planhigion 2016: £5,040.00

9.1.4 SWALEC Golau'r Gofgolofn Rhyfel: £14.73 (gan gynnwys TAW)

9.1.5 Ymddiriedolaeth Datblygu Trawsnewid Llambod: Llogi Neuadd Fictoria, Ieuainc Mewn Ysbryd £13.50.

9.1.6 Lwfans y Maer 2017-18: £3,049.50

9.1.7 Teifi Forge Trwsio'r Hysbysfwrdd: £177.60.

9.1.8 Eryl Jones: Yswiriant Ieuainc Mewn Ysbryd 2017-18 £255.85.

9.2 DERBYNIADAU

9.2.1 Praesept 2017-18 Cyngor Sir Ceredigion £27,333.33

9.3 CEISIADAU ARIANNOL

9.3.1 RAY Ceredigion: disgwylir y Fantolen Ariannol.

9.3.2 Eisteddfod Gŵyl y Banc £1,000

9.3.3 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – Cyfraniad tuag at y baneri i ddathlu cyfnodau hanesyddol rygbi yn Llanbedr Pont Steffan. £150

9.4 LLYTHYRON O DDIOLCH

9.4.1 Ambiwlans Awyr Cymru am y cyfraniad diweddar o £50.00.

9.4.2 Ymddiriedolaeth Cancr yn yr Ardegau; am y rhodd o £25.

9.4.3 Sant Ioan Cymru

Ar hyn o bryd y mae 13 o oedolion sy'n wirfoddolwyr wedi mynychu digwyddiadau i gyflenwi cymorth-cyntaf. Y mae cymorth ariannol y Cyngor Tref wedi eu galluogi i brynu pecynnau ffurfwisg a dau becyn ymateb. Y cam nesaf yw sefydlu Grŵp Mochyn Daear a anelwyd ar gyfer plant 5+ oed. Y gobaith yw recriwtio aelodau mwy cymwys, a fydd yn golygu y bydd cyfle creu Uned Ymatebwyr Cyntaf.

9.4.4 Cruse Gofal Mewn Galar £50.00

9.4.5 Sioe Amaethyddol Llanbedr PS £500

9.4.6 Aelwyd yr Urdd Llambod: £300.00

9.5 MATERION CYLLID PELLACH

9.5.1 Bydd Cofrestr Buddiannau Aelodau ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17 yn cael ei gynnwys o fewn Dogfennau Blynnyddol Archwilwyr Ariannol Grant Thornton.

9.5.2 Sandra McKenzie: Cymorth ar gyfer yr Arwyr; yn dymuno hyrwyddo'r gwasanaeth *Clwyfau Cudd* – yn gofyn petai'r Cyngor Tref yn ymwybodol o ddigwyddiadau ble gellir eu mynychu er mwyn casglu arian ar gyfer yr elusen- **PENDERFYNWYD** crybwyll yr Archfarchnad Sainsbury.

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 Parc-yr-Orsedd:

10.1.1 ROSPA Playsafety: Cynhelir arolwg Parc-yr-Orsedd a Chae Maesyderi yn ystod Mehefin 2017 am ffi o £66.50 am bob safle.

10.1.2 Ceisir amcanbris mewn perthynas ag atgyweirio y Castell.

10.2 PALMANTAU

10.2.1 Cynnig i gyflwyno bolardiau ar balmantau Stryd y Coleg gan GS Ceredigion mewn

ymgais i atal y difrod parhaol gan gerbydau, sy'n parcio ar y palmentydd. **PENDERFYNWYD** hysbysu yr Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion nad oedd y Cyngor Tref o blaid y newid ac i ofyn am drafodaeth lawn â chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion.

10.3 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI

10.3.1 Derbyniodd y Cyng. Harris amcanbris gan Mr Alec Page am 2 o byst gôl ar gyfer chwaraewyr iau a phegiau daear, i'w paentio'n wyn. Y gost: £460. Mynegwyd consyrn diogelwch gan rai trigolion Stad Maesyderi mewn perthynas â'r pyst.

PENDERFYNWYD cysylltu â ROSPA i ofyn cyngor- nid oedd y cyngor ar gael yn ystod y cyfarfod hwn.

10.3.2 Mae pedwar o feinciau picnic wedi eu troi wyneb i waered ar y Cae. Gwnaeth y Cyng. Chris Thomas apêl am gymorth.

10.4 YR IAITH GYMRAEG

Yr Adroddiad Blynyddol i ddilyn.

11. UNRHYW FATER ARALL

11.1 Dywedwyd bod ceir yn ymledu i'r ardal i gerddwyr o flaen yr hen Neuadd y Dref, Heol Fawr. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion.

11.2 Datganwyd llongyfarchion i'r Cyng. John Davies am ei gyfraniad o fewn rhaglen Tudur Owen.

11.3 Mae llawer o bobl yn yfed alcohol o fewn y Parth Dim-Yfed dynodedig. **PENDERFYNWYD** hysbysu'r Heddlu.

11.4 Nid yw'r Cloc Neuadd y Dref yn taro- i adrodd at sylw Jen Jones Canolfan Gwiltiau Cymru.

11.5 Gwnaeth nifer o Gynghorwyr a'r Clerc atseinio geiriau cynt y Maer a diolch i Gynghorwyr ar ymddeol am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod eu cyfnod fel Cyhgnorwyr ac am eu gwasanaeth i'r Gymuned; dymunwyd yn dda iddynt yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50pm.

Cyfarfod nesaf Dydd Mercher 17EG o Fai, 2017 i ddilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

----- (llofnod/dyddiad)